Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Glantwymyn
# Glantwymyn
# Machynlleth
# Powys
# SY20 8LX

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Glantwymyn

Lleolir Ysgol Glantwymyn ym mhentref Glantwymyn, ym Maldwyn, yn awdurdod lleol Powys. Mae 63 disgybl rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr. Addysgir y disgyblion mewn tri dosbarth oed cymysg.

Dros dreigl tair blynedd, mae llai nag 1% o’r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd lawer is na chyfartaledd Cymru, sef 18%. Daw tua 60% o’r disgyblion o gartrefi ble y siaredir Cymraeg fel iaith yr aelwyd ac mae pob disgybl o gefndir gwyn Prydeinig. Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu a’r dysgu ac anelir at sicrhau bod pob disgybl yn rhugl yn y Gymraeg a’r Saesneg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Mae’r ysgol wedi adnabod bod gan tua 6% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn is na’r ganran genedlaethol, sef 21%.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Hydref 2014. Ers 2014, daeth yr ysgol yn rhan o ffederasiwn ffurfiol gydag Ysgol Gynradd Carno ac Ysgol Gynradd Llanbrynmair o dan un pennaeth ac un corff llywodraethol. Penodwyd y pennaeth i’w swydd ym Medi 2016.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Glantwymyn yn gymuned hynod weithgar, hapus a gofalgar lle mae bron pob un disgybl yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn. Mae'r disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn hollol naturiol a digymell mewn gwersi ac yn ystod amseroedd egwyl. Maent yn barchus iawn tuag at ei gilydd ac mae'r disgyblion hŷn yn ofalus iawn o'r disgyblion iau. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau yn llwyddiannus mewn amrediad o gyd-destunau diddorol ar draws y cwricwlwm.

Mae'r athrawon a'r staff cefnogi yn fodelau iaith effeithiol iawn. Maent yn cynllunio amrediad o brofiadau cyfoethog a sbardunol ar gyfer y disgyblion. Maent yn rhannu arbenigedd o fewn yr ysgol ac ar draws ysgolion y ffederasiwn yn fedrus, gan fonitro gwelliannau yn fanwl.

Mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda iawn. Mae'r strwythurau hunanwerthuso yn hynod gadarn ac wedi gwreiddio, ac mae'r holl staff yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â chamau gweithredu. O ganlyniad, mae gan arweinwyr a staff berchnogaeth gadarn iawn o'r hyn sydd angen ei wneud i ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod staff yn darparu gweithgareddau a heriau sy'n ymateb i anghenion penodol pob disgybl yn y cyfnod sylfaen

A2 Sicrhau bod gweithdrefnau olrhain cynnydd yn hylaw a bod athrawon yn gwneud defnydd effeithlon ohonynt i ymestyn y dysgu.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos i'w lledaenu ar wefan Estyn ar ei gwaith mewn perthynas â chynllunio ar gyfer gwelliant ar draws y ffederasiwn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol â medrau llythrennedd a mathemategol ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoed. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da dros amser.

Mae medrau llafar disgyblion yn gryfder ar draws yr ysgol. Maent yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol mewn gwersi a sefyllfaoedd anffurfiol. Mae'r disgyblion sy'n cychwyn yn yr ysgol heb fedru'r Gymraeg yn dysgu'r iaith yn gyflym. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn trafod yn aeddfed a mynegi barn yn hyderus, er enghraifft wrth egluro sut i greu ysgub ar gyfer y wrach. Ym mhen uchaf yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn egluro eu dewisiadau yn gryno ac aeddfed, er enghraifft wrth drafod pa ddeunydd fydd yr ynysydd gorau.

O'r cychwyn cyntaf, mae'r disgyblion ieuengaf yn dod i adnabod llythrennau, gan ddarllen cymalau a geiriau unsill yn hyderus. Mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn mwynhau trafod llyfrau a'u hoffter o wahanol storïau, gan fynegi barn yn aeddfed. Mae darllenwyr mwy hyderus Blwyddyn 1 a 2 yn darllen testunau estynedig a heriol yn rhugl. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn aeddfed a chyda mynegiant da.

Mae rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd cadarn gyda'u darllen. Mae gan ran fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 ddiddordeb byw yn eu llyfrau. Maent yn trafod llyfrau yn aeddfed, gan fynegi eu hoffter o wahanol awduron. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn cywain gwybodaeth yn hyderus. Er enghraifft, maent yn defnyddio amrediad o ffynonellau i rannu gwybodaeth gyda'r Prif Weinidog, Winston Churchill, am y Blits yn Abertawe ym 1941.

Mae'r disgyblion yn dechrau ysgrifennu llythrennau a geiriau unsill yn gynnar ar ôl cychwyn yn y dosbarth derbyn. Maent yn dod yn gynyddol annibynnol wrth greu geiriau a brawddegau syml, gan ddefnyddio ystod dda o gystrawennau yn gywir. Erbyn diwedd Blwyddyn 2 , mae gan y rhan fwyaf afael gadarn ar atalnodi a sillafu. Maent yn creu darnau dychmygus, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr gan y blaidd mawr cas at mami mochyn yn ymddiheuro am chwythu'r tŷ i lawr.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu mewn amrediad o ffurfiau i safon da yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ansoddeiriau a chymariaethau i gyfoethogi eu gwaith. Maent yn hunangywiro ac ailddrafftio'n hyderus. Mae'r rhan fwyaf yn creu darnau dychmygus, er enghraifft wrth greu stori wreiddiol am y tywysog Llywelyn ym Mlwyddyn 3 a 4. Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau trawsieithu da, er enghraifft wrth greu portread Saesneg o Blodeuwedd, yn disgrifio ei gwedd, ei gwisg a'i phersonoliaeth.

Mae medrau mathemategol disgyblion y cyfnod sylfaen yn gadarn. Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth dda o rif, siâp a data, gan ddatblygu eu medrau yn hyderus mewn gwahanol gyd-destunau, er enghraifft wrth amseru eu partner yn cyfri pryfaid cop. Maent yn defnyddio cyfesurynnau yn hyderus, ac yn cydweithio'n llwyddiannus wrth ddatrys problemau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 2 ddarllen graddfa ar thermomedr yn llwyddiannus, ac yn adnabod onglau sgwâr yn amgylchedd yr ysgol.

Mae gan ran fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 fedrau mathemategol cadarn. Maent yn cymhwyso'u medrau yn llwyddiannus, er enghraifft wrth graffu ar gynnydd poblogaeth Cymru ym Mlwyddyn 3 a 4. Erbyn pen uchaf yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio unedau mesur yn fanwl a chywir, er enghraifft wrth greu amlinelliad o gastell, gan fesur arwynebedd a pherimedr, a chyfrifo sawl llechen fyddai eu hangen ar gyfer y to.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a thechnoleg (TGCh) rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn ar draws yr ysgol. Mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn mewngofnodi i blatfform dysgu yn annibynnol, gan arbed a dod o hyd i'w gwaith trwy ddefnyddio cyfrinair, yn ddiffwdan. Maent yn defnyddio pecynnau prosesu geiriau a graffeg yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ail-greu stori 'whwsh ar y brwsh.'

Mae rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio amrediad da o galedwedd a meddalwedd i gefnogi eu dysgu yn hyderus. Enghraifft nodedig o hyn yw gwaith Blwyddyn 5 a 6 yn defnyddio codau 'QR' i arddangos animeiddiad digidol am yr artist Kyffin Williams. Maent yn gwneud dewisiadau aeddfed ynglŷn â'r offer mwyaf effeithiol i gefnogi eu dysgu.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda iawn yn y gwersi ac yn ystod amser egwyl. Maent yn hynod gwrtais a pharchus tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr. Mae hyn yn nodweddiadol o'r gydberthynas deuluol a chefnogol sy'n bodoli ar draws cymuned yr ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cydweithio'n effeithiol iawn ac mae'r disgyblion hŷn yn dangos gofal arbennig am eu cyfoedion iau ar y buarth ac wrth symud o amgylch yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus bod y staff yn ymateb yn brydlon i unrhyw bryderon sydd ganddynt. Mae bron pob disgybl yn falch o'r diwylliant Cymreig a'u Cymreictod ac yn siarad yr iaith yn raenus ac yn hollol naturiol gyda'u cyfoedion. Maent yn deall mantais a gwerth bod yn gwbl ddwyieithog yn eu bywydau pob dydd. Trwy amrediad cyfoethog o weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol, maent yn cyfranogi'n llawn yn y diwylliant Cymreig yn lleol ac yn ehangach.

Mae gwaith aelodau'r gwahanol bwyllgorau yn datblygu'n dda. Mae grwpiau disgyblion yn rhoi llais amlwg i'w cyd-ddisgyblion ac yn eu galluogi i gael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol a lles eu cyfoedion. Mae aelodau'r cyngor ysgol, y cyngor eco, y criw Cymraeg a'r pwyllgor ysgol iach yn cyflawni eu rolau'n fedrus ac yn gwneud cyfraniad amlwg at fywyd yr ysgol. Mae aelodau'r criw Cymraeg yn weithgar iawn, er enghraifft wrth drefnu cerddor y mis, creu ffeil o ffeithiau am gerddorion Cymraeg, a sicrhau bod cerddoriaeth Cymraeg i'w chlywed yn ystod amser egwyl. Maent yn cefnogi'r disgyblion ieuengaf trwy eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg wrth chwarae.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Mae llawer yn cymryd rhan yn y weithgaredd rhedeg milltir y dydd ac yn ymgymryd â gemau buarth wedi eu trefnu gan y disgyblion hŷn. Mae gan y disgyblion berthynas agos gyda grwpiau cymunedol. Er enghraifft, mae'r cyngor eco yn cydweithio'n agos gyda grŵp o arddwyr lleol, Mach Maethlon. Mae aelodau o'r gymuned yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i ddatblygu gardd yr ysgol ac yna coginio a blasu'r bwyd mewn gwersi coginio. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau mentergarwch yn llwyddiannus trwy werthu'r cynnyrch yn y gymuned.

Mae ‘dewiniaid digidol’ yr ysgol yn atgoffa’u cyd-ddisgyblion am reolau’r rhyngrwyd yn dda ac, o ganlyniad, mae ymwybyddiaeth gadarn gan bron pob disgybl o bwysigrwydd cadw’n ddiogel ar y we. Mae gan ran fwyaf y disgyblion wybodaeth dda am y problemau a achosir gan gamddefnyddio sylweddau, alcohol a thybaco ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae bron pob disgybl yn mwynhau’r heriau y maent yn eu derbyn yn y dosbarth ac yn canolbwyntio a dyfalbarhau â’u tasgau yn dda iawn. Mae bron pob disgybl yn cydweithio’n effeithiol ac yn arwain trafodaethau yn aeddfed ac yn bwyllog er mwyn helpu sicrhau bod pob unigolyn yn cael chwarae teg. Maent yn datblygu’n ddysgwyr hyderus gyda’r gallu i weithio’n annibynnol pan fo cyfleoedd i wneud hynny. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymwybodol o’u targedau unigol ar gyfer gwella eu medrau ac nid ydynt yn ofni gwneud camgymeriadau. Mae’r rhan fwyaf yn barod i awgrymu ffyrdd gwahanol o ddatrys problemau neu wella eu gwaith. Mae bron pob un disgybl yn datblygu’n ddinasyddion gwybodus a moesol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae’r staff yn adnabod y disgyblion yn dda iawn ac mae perthynas hynod adeiladol a chefnogol yn bodoli rhyngddynt ar draws yr ysgol.

Ar y cyfan, mae’r athrawon yn gwneud defnydd cyson ac effeithiol o gwestiynau pen agored er mwyn annog y disgyblion i feddwl yn annibynnol. Gan amlaf, mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel o’r disgyblion ac maent yn cynllunio rhan fwyaf y gweithgareddau yn effeithiol ar eu cyfer.

Mae’r athrawon yn rhannu amcanion eglur ar gyfer gwersi. Maent yn rhannu meini prawf penodol gyda’r disgyblion ac yn eu hannog i’w defnyddio i werthuso eu gwaith yn unigol neu gyda chymheiriaid. O ganlyniad, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o ddisgwyliadau’r athrawon mewn perthynas â thasgau penodol. Mae’r athrawon a’r staff ategol yn cefnogi disgyblion yn bwrpasol yn ystod eu gwaith, gan ddarparu adborth llafar effeithiol iddynt i hwyluso’r dysgu. Mae’r adborth ysgrifenedig a ddarperir o safon dda. O ganlyniad, mae gan ran fwyaf y disgyblion afael gadarn ar yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i ddatblygu eu gwaith ymhellach.

Mae gan yr ysgol gwricwlwm diddorol sy’n datblygu medrau disgyblion ar draws yr holl feysydd dysgu yn effeithiol. Mae’r gweithgareddau yn ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymroi’n llwyr i’w gweithgareddau ac yn gwneud cynnydd effeithiol yn eu medrau. Cyfoethogir y cwricwlwm yn effeithiol iawn drwy’r defnydd o arbenigwyr, ymwelwyr ac ymweliadau, er enghraifft gydag ymweliad gan gwmni theatr i ddysgu am fywyd person yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Nodwedd gref o waith yr ysgol yw’r ffordd synhwyrol y mae’r athrawon yn gweu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh drwy’r cwricwlwm. Enghraifft dda iawn o hyn yw’r ffordd y mae’n gweithio gydag ysgolion eraill y ffederasiwn ar brosiect creadigol ‘Yr Elfennau’. Yn ystod y prosiect hwn, mae’r disgyblion wedi derbyn cyfleoedd arbennig o dda i greu dawns, darnau o gelf ac i gyfansoddi cerddi. Maent wedi cyhoeddi’r cerddi a’r gwaith celf mewn llyfr ac wedi defnyddio’r dawnsiau fel rhan o lansiad y llyfr. Mae hyn yn meithrin parch a balchder ymysg y disgyblion tuag at eu gwaith yn hynod effeithiol.

Mae'r athrawon yn sicrhau cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu holl fedrau drwy weithgareddau entrepreneuriaeth. Mae'r gwaith hwn yn galluogi disgyblion i ddefnyddio'u medrau creadigol yn fwriadus i greu cynnyrch i'w werthu yn ogystal â'u medrau rhifedd i gyfrifo cost ac elw, er enghraifft wrth greu platiau gan ddefnyddio dull penodol i'w gwerthu.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau gwyddonol disgyblion yn effeithiol iawn. Ceir cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o elfennau gwyddonol, er enghraifft wrth ddarganfod pa gerrig sy'n athraidd neu yn anathraidd.

Mae'r cyfleoedd cyfoethog sy'n bodoli i hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod yn rhan hollol greiddiol a naturiol o holl waith yr ysgol. Mae'r athrawon yn modelu iaith yn fedrus. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar gywirdeb a safon iaith y disgyblion. Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig yn hollol naturiol drwy weithgareddau'r cwricwlwm. Er enghraifft, ceir cyfleoedd niferus i ddisgyblion astudio gwaith artistiaid, cerddorion ac awduron Cymru yn rheolaidd.

Mae gan yr athrawon ymwybyddiaeth gadarn o egwyddorion y cyfnod sylfaen. Yn gyffredinol, maent yn cynllunio cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau o dan arweiniad staff a chyfleoedd i ddisgyblion i weithio'n annibynnol yn yr ardaloedd dysgu, er enghraifft wrth iddynt greu swyn yn y crochan yn y gegin fwd. Fodd bynnag, nid yw staff bob amser yn teilwra gweithgareddau a heriau yn ddigon effeithiol i ymateb i anghenion pob disgybl.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned deuluol, groesawgar a Chymreig y mae pob disgybl yn falch ohoni. Mae'r berthynas waith effeithiol sy'n bodoli rhwng y disgyblion a'r athrawon yn nodwedd arbennig o'r ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at yr agweddau cadarnhaol sydd gan y disgyblion at eu gwaith ac at naws gynhwysol yr ysgol.

Mae'r athrawon yn adnabod anghenion y disgyblion yn gynnar ac yn cynnig darpariaeth addas iddynt. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun datblygu unigol sy'n cynnwys gwybodaeth berthnasol a thargedau addas a mesuradwy. Caiff y cynlluniau hyn eu hadolygu'n effeithiol gyda'r disgyblion, yr athrawon a'r rhieni. O ganlyniad, mae gan y disgyblion berchnogaeth ohonynt sy'n eu hannog i gyflawni'n dda yn eu medrau llythrennedd a rhifedd, gan wneud cynnydd cyson dros amser.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau olrhain cynnydd priodol sy'n fodd i ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol i athrawon adnabod anghenion unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion, ac i'w cynorthwyo i ddarparu'n briodol ar eu cyfer. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn gwneud defnydd digon craff o'r data sy'n deillio o'r gweithdrefnau hyn. Maent, yn hytrach, yn dibynnu gormod ar eu mympwy i'w cynorthwyo i osod targedau a theilwra gweithgareddau ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn gymuned gyfeillgar a theuluol sy'n hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi ac ymroddiad gan ddisgyblion. Mae pwyslais cryf ar gynnig cyfle cyfartal i bob disgybl ac ar hybu amrywiaeth a thegwch. Mae'r ysgol wedi sefydlu trefn effeithiol i ofalu am y disgyblion amser chwarae trwy roi cyfrifoldeb i'r rhai hŷn i warchod a chwarae gyda'r rhai iau. Mae gan yr ysgol drefniadau da ar gyfer bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ysgol yn cynnal cyfnodau effeithiol o addoli ar y cyd yn rheolaidd, gan hybu dealltwriaeth disgyblion o gydraddoldeb ac amrywiaeth a meithrin eu medrau ysbrydol a moesol yn llwyddiannus. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn gryf, ac o ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o hawliau plant, diogelwch, iechyd personol a lles meddyliol.

Mae'r ysgol yn dathlu cynnydd disgyblion yn effeithiol drwy arddangos eu gwaith gorau drwy'r ysgol a thrwy rannu a dathlu eu llwyddiannau. Mae hyn yn ennyn balchder y disgyblion yn eu gwaith. Mae staff yn datblygu medrau creadigol y disgyblion yn dda trwy brosiectau fel yr un diweddar ar yr 'Elfennau' a drefnwyd gan gwmni theatr lleol, i ddatblygu medrau drama, arlunio a dawnsio'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn trefnu cyfleoedd cyson i'r disgyblion gystadlu'n llwyddiannus mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol a pherfformio mewn cyngherddau yn eu milltir sgwâr yn ystod y flwyddyn. Mae disgyblion yn elwa'n fawr o ymweliadau addysgol a chroesawu ymwelwyr i'r ysgol. Mae'r holl brofiadau gwerthfawr a roddir i'r disgyblion yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn tuag at eu paratoi i fod yn ddinasyddion hyderus, annibynnol ac aeddfed.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae arweinyddiaeth flaengar y pennaeth, y penaethiaid cynorthwyol a'r llywodraethwyr, law yn llaw â chydweithio cryf y staff, yn golygu bod buddion amlwg i drefniant ffederasiwn ysgolion Carno, Glantwymyn a Llanbrynmair. O ganlyniad, mae ethos o welliant parhaus yn rhan annatod o waith yr ysgolion, sy'n arwain at safonau a darpariaeth sydd o leiaf yn dda a chyda nodweddion amlwg o ragoriaeth ar draws y ffederasiwn cyfan. Trwy strwythurau arwain a rheoli clir a chyfrifoldebau tryloyw i'r staff, mae pawb o fewn y ffederasiwn yn gweithio'n ddiwyd i gyflawni gweledigaeth gytûn. Mae hyn yn seiliedig ar godi safonau a sicrhau darpariaeth addysg o'r radd flaenaf i ddisgyblion yr ysgolion. Mae rhannu arbenigeddau staff, arferion da ac adnoddau, yn nodweddion effeithiol o'r ffederasiwn. Enghreifftiau nodedig o hyn yw'r gwaith y mae'r arweinwyr wedi ei wneud er mwyn cryfhau rôl arwain cydlynwyr pwnc yr ysgolion. Mae'r cydlynwyr bellach yn chwarae rhan greiddiol wrth gyfrannu at hunanwerthuso'r ddarpariaeth ac arwain gwelliannau yn eu meysydd cyfrifoldeb ar draws ysgolion y ffederasiwn. Trwy hyn, mae arweinwyr yn sicrhau bod y cwricwlwm a'r ddarpariaeth ar gyfer y medrau yn hynod ddiddorol ac yn cynorthwyo pob disgybl i wneud cynnydd uchel yn gyson.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gynhwysfawr o ansawdd y ddarpariaeth ac am safonau. Trwy ymweld â'r ysgolion yn rheolaidd i graffu ar ansawdd ac wrth dderbyn adroddiadau cynnydd manwl gan y pennaeth, maent yn adnabod cryfderau'r ysgolion a'r meysydd i'w gwella yn drwyadl. Mae'r is-bwyllgor cwricwlwm yn fforwm effeithiol i arfarnu effeithiolrwydd y ddarpariaeth gan ddwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn llwyddiannus.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn rhagorol. Mae'r adroddiadau hunanwerthuso yn ddogfennau gonest sy'n amlygu cryfderau a meysydd i'w gwella yn yr ysgolion yn fanwl. Maent yn cynnwys sylwadau treiddgar

sy’n deillio o dechnegau cadarn ar gyfer casglu tystiolaeth. O ganlyniad, mae’r weithdrefn hunanwerthuso yn un sy’n creu gwerthusiadau dilys a chredadwy am ansawdd y ddarpariaeth, safonau ac effaith yr arweinyddiaeth.

Trwy ystyriaeth ofalus, sy’n cynnwys mewnbwn gan aelodau’r uwch dîm rheoli a’r staff, mae’r arweinwyr yn defnyddio deilliannau’r weithdrefn hunanwerthuso yn effeithiol iawn i greu blaenoriaethau synhwyrol o fewn cynllun gwella trefnus. Mae nifer y blaenoriaethau yn hylaw ac mae adnoddau cyllidol ac amser staff yn cael eu clustnodi’n synhwyrol er mwyn eu cyflawni’n llwyddiannus. Mae’r modd y mae’r arweinwyr yn sicrhau bod y blaenoriaethau hyn yn cael eu cwblhau yn rhagorol. Maent yn ymrwymo targedau rheoli perfformiad y staff at gwblhau'r blaenoriaethau yn fedrus gan roi cyfleoedd effeithiol iawn iddynt adnabod beth yw eu cyfraniad nhw i’r broses wella. Mae hyn yn hybu perchnogaeth ac atebolrwydd y staff i fagu syniadau ynglŷn â sut i fynd i’r afael â’r blaenoriaethau yn effeithiol. Mae ‘adroddiadau effaith’ y pennaeth a’r uwch dîm rheoli yn amlygu’n glir y cynnydd a wneir yn erbyn cyflawni’r blaenoriaethau yn effeithiol iawn. Mae hyn yn sicrhau bod arweinwyr a staff yn ymwybodol yn rheolaidd o raddfa’r cynnydd, gan addasu cynlluniau gwella yn ôl yr angen. O ganlyniad, mae hanes llwyddiannus gan yr ysgolion o wella eu darpariaeth a chodi safonau ym mron pob un flaenoriaeth dros nifer o flynyddoedd.

Mae cyllidebau’r ysgolion yn cael eu rheoli yn effeithiol ac mae grantiau penodol, fel y grant datblygu disgyblion, yn bodloni anghenion disgyblion yn briodol, er enghraifft i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae’r arweinwyr yn rheoli eu hadnoddau, gan gynnwys adnoddau dynol, yn fedrus gan olygu y gallant gyflawni mwy gyda’i gilydd fel ffederasiwn nag y gallent fel ysgolion unigol. Mae’r modd y mae’r ysgolion yn paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd a darparu profiadau eang i ddisgyblion, ac yn cynnal a gwella deilliannau a darpariaeth y Gymraeg, yn enghreifftiau diweddar a llwyddiannus o hyn.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/01/2019